**MID 04-00(cof)**

**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 7 Gorffennaf, 2000

**Amser:** 10.30 a.m.

**Lleoliad:** The Welfare Hall, Ystradgynlais

**Aelodau:**

| | | |
|---|---|---|
| Elin Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Ceredigion |
| Mick Bates | Democrat Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Kirsty Williams | Democrat Rhyddfrydol | Brycheiniog a Maesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Ian Dawes | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Nick Bourne | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Glyn Davies | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**<u>Eitem 1: Ethol Cadeirydd ar gyfer 2000/01</u>**

1. Yn absenoldeb Glyn Davies, sy’n gorffen ei dymor fel Cadeirydd, derbyniodd y.

Clerc y Gadair a gwahoddodd enwebiadau gan Aelodau. Cynigiodd Delyth Evans enw Elin Jones, a chafodd y cynnig ei eilio gan Mick Bates.

1.2 Mynegodd Ms Jones ei diolch am y fraint o gael ei hethol yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod a thalodd deyrnged i waith ac arweiniad Glyn Davies. Cyhoeddodd ymddiheuriadau gan Mr Davies a Nick Bourne, ynghyd ag ymddiheuriad gan Mr Richard Livesey, AS Brycheiniog a Maesyfed, nad oedd yn gallu mynychu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol. Atgoffwyd aelodau’r cyhoedd fod y cyfarfod yn un o gyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Cenedlaethol, a bod y rheolau ymddygiad arferol yn berthnasol.

**Eitem 2: Y Flaen-raglen Waith**

**Papur: MID 04-00(p.1)**

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried y flaen-raglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr hydref ac i ystyried ffurf gyffredinol cyfarfodydd yn y dyfodol.

2. Roedd y canlynol ymysg y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth roedd:

- Roedd y Sesiwn Lawn ar Adroddiadau’r Pwyllgorau Rhanbarth wedi tanlinellu’r angen i egluro swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth a sut allent fod yn fwy perthnasol i waith y Cynulliad;
- gellid cynnal cyfarfodydd ar themâu penodol yn y dyfodol er mwyn i’r Aelodau allu archwilio pynciau’n fwy manwl. Gellid cysylltu’r themâu a pholisïau’r Cynulliad a phryderon neu fentrau rhanbarthol;
- dylai’r Pwyllgor fabwysiadu rôl archwilio wrth edrych ar weithgareddau cyrff cyhoeddus yn y rhanbarth;
- dylid datblygu cysylltiadau agosach gydag awdurdodau lleol trwy feithrin partneriaeth er mwyn clustnodi materion y gallai’r Pwyllgor eu hystyried a helpu’r Pwyllgor i nodi pryderon y rhanbarth y gellid cyfeirio atynt wrth archwilio cyrff cyhoeddus;
- gallai ynni adnewyddadwy a thwristiaeth werdd fod yn rhai o’r themâu posibl;
- byddai trafod Cynlluniau Gwella Iechyd gyda holl bartneriaid iechyd y rhanbarth yn ychwanegu gwerth i’r broses archwilio sydd i’w mabwysiadu gan Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y ddau awdurdod;
- y byddai’n well cynnwys cyflwyniad gan fudiad ieuenctid megis Urdd Gobaith Cymru

wrth ystyried Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc y rhanbarth, a gellid cynnwys mudiadau ieuenctid eraill ar yr un pryd;

- y byddai safbwyntiau cyrff gwirfoddol ambarél yn cael eu ceisio ar faterion sy'n cael eu hystyried;
- y gellid gwahodd awdurdodau lleol i fod yn 'ymgynghorwyr sefydlog' i'r Pwyllgor ac i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd; ac
- y gallai'r Pwyllgor ystyried ffyrdd ymarferol o fynd ati i annog ysgolion i ymwneud â chyfarfodydd rhanbarthol.

2. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am drafodaeth fuddiol. **Cytunwyd y dylai'r**

**Cadeirydd fynegi dymuniad y Pwyllgor i ddatblygu gwell cyswllt â hwy wrth awdurdodau lleol y rhanbarth.** Cytunwyd hefyd y dylid mabwysiadu thema ar gyfer pob cyfarfod. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried un pwnc yn fanwl a gwahodd sylwadau amrywiaeth eang o gyrff. Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r themâu hyn ar gyfer y cyfarfodydd canlynol:

**2000**

**20 Hydref** – adfywiad economaidd a chymunedol yn y Canolbarth, gan gynnwys cyflwyniadau gan y WDA;

**1 Rhagfyr** – Cynlluniau Gwella Iechyd, gan gynnwys cyflwyniadau gan Grwpiau Cyswllt Iechyd, awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau iechyd, grwpiau cleifion a chynghorau gwirfoddol cymunedol;

**2001**

**Chwefror** – Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc i gynnwys mudiadau ieuenctid gan gynnwys Urdd Gobaith Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, gwirfoddolwyr y Mileniwm, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Llais Ifanc ac eraill;

**Mawrth/Ebrill –** Ynni Adnewyddadwy; a

**Mai/Mehefin** – Yr Economi Werdd (twristiaeth, ynni a datblygu economaidd).

**<u>Eitem 3: Sgiliau a Hyfforddi</u>**

**Papur: MID 04-00 (p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau Cyngor Hyfforddi a Menter (TEC) y Canolbarth

i'r cyfarfod a gwahoddodd y Cynghorydd Keith Evans, Is-gadeirydd y TEC, i gyflwyno'i gydweithwyr, Alan Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Cyflenwi a Datblygu, Robert White, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaeth Cwsmeriaid a Grenville Jackson, Prif Weithredwr. Ymddiheurodd fod Nigel Bruce, Cadeirydd y TEC, yn absennol.

3.2 Cyflwynodd y Cynghorydd Evans becyn gwybodaeth i'r Pwyllgor i gyd-fynd â

phapur y pwyllgor. Llongyfarchodd Elin Jones ar gael ei hethol yn Gadeirydd a diolchodd am waith y Pwyllgor dan Gadeiryddiaeth Glyn Davies. Eglurodd fod Bwrdd y TEC yn cynnwys 18 o bobl fusnes a swyddogion blaenllaw o'r sector cyhoeddus megis Prif Weithredwyr pob awdurdod lleol a Chyfadran Canolbarth Cymru'r WDA. Roedd pob un ohonynt yn rhoi ei wasanaeth yn wirfoddol a di-dâl.

3.3 Yn fyr, roedd y TEC wedi cyflawni holl dargedau'r flwyddyn gyntaf. Yn y flwyddyn ariannol bresennol byddai'n buddsoddi dros £10 miliwn i wella sgiliau, cynyddu lefelau cynhyrchiant a gwneud busnesau'r Canolbarth yn fwy cystadleuol gan fod lefel buddsoddiad busnesau'r ardal mewn sgiliau a dysgu ymysg yr isaf yn y DU.

4. Roedd ddau olwg gwrthgyferbyniol ar y farchnad gyflogaeth wedi dod i'r amlwg

   gyda busnesau'n cwyno mai prinder sgiliau yw'r brif broblem a gweithwyr yn cwyno am brinder swyddi da. Roedd y ffaith fod y galw am hyfforddiant yn gymharol isel yn gwaethygu'r sefyllfa, yn enwedig mewn busnesau bach mewn ardaloedd gyda lefelau cynhyrchu isel. Roedd y TEC wedi canolbwyntio felly ar helpu darparwyr hyfforddiant i wella'r hyn yr oeddent yn ei gynnig a'r ffordd yr oeddent yn ei gynnig.

5. Roedd cynlluniau ar y gweill bellach i reoli'r gwaith o drosglwyddo'r cyfrifoldeb

   dros ddatblygu hyfforddiant i Gyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru (CETW) a byddai pwyllgor rhanbarthol yn gyfrifol am reoli Canolbarth Cymru. Roedd yn hanfodol bod Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw'n hanu o Ganolbarth Cymru. Roedd y TEC yn disgwyl y byddai mwyafrif ei staff yn trosglwyddo i'r Cyngor Cenedlaethol. Teimlai y byddai'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCET) yn elfennau hanfodol o fewn y strwythurau trefniadol newydd, ac roedd y rhain yn cael eu datblygu ar gyfer Ceredigion a Phowys, a byddai Meirionnydd yn cael ei chynnwys mewn CCET ar gyfer Gwynedd/Ynys Môn. Disgwyliwyd y byddai'r TEC yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r CCETs. Byddai'n rhaid i'r Cyngor

Cenedlaethol wneud popeth o fewn ei allu i ddenu cymorth ariannol gan Ewrop er mwyn datblygu rhaglen hyfforddi berthnasol a chynhwysfawr.

6. Roedd y pwyntiau a gododd yn ystod y drafodaeth yn cynnwys:

- a oedd gwahanol anghenion yn bodoli o ran darparu sgiliau a hyfforddiant;
- pa ddarpariaeth oedd yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg;
- pa hyfforddiant ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC) oedd yn cael ei ddarparu;
- byddai technoleg micro-donnau yn galluogi pobl i fanteisio ar ddatblygiadau 'broadband' mewn ysgolion, gan alluogi cymunedau i fanteisio'n fwy ar TGC, beth oedd yn cael ei wneud i ddatblygu hyn;
- pa gamau oedd yn cael eu cymryd i gadw pobl ifanc yn yr ardal er mwyn iddynt arwain y ffordd yn y gymuned ac ym myd busnes yng Nghanolbarth Cymru, roedd angen cynnwys y nod o gadw pobl ifanc yn yr ardal mewn unrhyw gynllun hyfforddi fel arwydd o lwyddiant;
- pa bartneriaethau eraill yng Nghanolbarth Cymru oedd yn ceisio adfywio'r ardal a beth oedd y rhwystr mwyaf i ddatblygiad;
- a oedd y bonws cymhelliant yn berthnasol i Ganolbarth Cymru yn unig;
- sut gwnaeth y TEC barhau i ddatblygu cysyniadau menter mewn ysgolion;
- beth oedd y cysylltiadau â'r cynllun datblygu gwledig, sut oedd y cysylltiadau â byd busnes yn cael eu cadw a sut oedd gwaith y TEC yn cysylltu â mentergarwch; a
- sut oedd swyddogaeth y WDA yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Gweithredu Menter.

3.7 Soniodd y cynrychiolwyr bod y galw'n amrywio mewn gwahanol ardaloedd yng Nghanolbarth Cymru ac o ganlyniad, bod angen adeiladu ar allu cymunedau gan gydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn clustnodi anghenion pobl ifanc. Roedd yn hanfodol bod cynlluniau lleol yn cael eu trosglwyddo i'r CCETs. Roedd y TEC yn cydweithio'n agos â phartneriaid i wella cymhwyster ysgolion a chymunedau ym maes TGC. Roedd Llwybr wedi llwyddo i rwydweithio ysgolion a llyfrgelloedd. Roedd TGC yn parhau'n rhan hanfodol o bob cynllun hyfforddi, roedd y TEC yn cydweithio'n agos gyda'r WDA er mwyn sicrhau nad oedd yr ‘uwch draffordd wybodaeth’ yn anwybyddu Canolbarth Cymru. Y nod oedd sicrhau darpariaeth TGC lawn i Ganolbarth Cymru erbyn 2010, ond wrth geisio sicrhau rhaglen integredig i ddatblygu isadeiledd, roedd yr un mor bwysig datblygu sail i'r gwasanaeth.

3.8 Â hithau'n gyfnod anodd i'r diwydiant amaeth ar hyn o bryd, roedd ffermwyr yn ymwybodol o fanteision TGC. Darparwyd hyfforddiant sylfaenol ar y safle ynghyd â chymorth ymgynghorol er mwyn annog rhagor i'w defnyddio. Roedd y TEC wedi cynorthwyo i baratoi'r elfen o'r cynlluniau datblygu gwledig sy'n ymwneud â sgiliau, gan gynnwys paratoi'r cais Amcan 1 gyda'r Grp Datblygu Partneriaeth Bwyd-Amaeth.

3.9 Roedd yn gweithio'n agos â Thasglu Cwm Tawe a busnesau lleol yn ardal Ystradgynlais er mwyn annog cyfleoedd lleol ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd asiant busnes llawn amser yn gweithio yn y swyddfa Cyswllt Busnes leol yn canolbwyntio ar hyn. Clustnodwyd arian Amcan 3 ar gyfer partneriaethau er mwyn eu cynorthwyo i fanteisio'n llawn ar y potensial lleol, ac roedd y ffaith bod TEC Gorllewin Cymru yn agos i Ystradgynlais wedi cynorthwyo i ddatblygu perthynas waith dda gyda'r corff hwnnw. Roedd yn hanfodol bod CETW yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu integredig unwaith y byddai mewn grym. Hefyd, ei fod yn cydnabod yn syth bod sgiliau a hyfforddiant addas, na fuont yn bwysig iawn mewn mentrau adfywio o'r blaen, yn awr yn hanfodol i anghenion mentergarwch yng Nghanolbarth Cymru.

3.10 Roedd angen parhaus i gadw pobl ifanc yn yr ardal a denu'r rhai hynny sydd wedi gadael yr ardal ond sydd â chyswllt â'r ardal o hyd, yn ôl yma, yn enwedig y rhai sy’n gweithio gyda chwmnïau sydd â chysylltiadau â Chymru. Roedd yn hanfodol bwysig cadw pobl ifanc sydd â syniadau a gallu ac sy'n fodlon mentro. Roedd yr ifanc yn cael eu targedu mewn rhaglenni hyfforddi ond efallai nad oeddent yn cael eu targedu'n ddigon da fel cynulleidfa. Roedd rhaglenni mewn grym i ddelio â diffyg diddordeb myfyrwyr ac athrawon trwy eu gosod mewn diwydiant am gyfnodau dros dro er mwyn cyflwyno'r anghenion a'r cyfleoedd lleol iddynt. Roedd angen cysylltu enghreifftiau o arfer da a'u cynnal er mwyn i bob oedran allu manteisio arnynt. Roedd Busnesau Bach a Chanolig yn awyddus i hyfforddi a datblygu pobl, ond roeddent yn ei chael yn anodd i’w cadw. Un perygl oedd y byddai 32% o bobl ifanc yn raddedigion erbyn 2002-03 ac y byddent yn cael eu temtio gan gyfleoedd y tu allan i'r ardal.

3.11 Diolchodd y Cadeirydd i TEC Canolbarth Cymru am ei gyflwyniad. Nododd fod mentrau hyfforddi a sgiliau yn hanfodol i Ganolbarth Cymru os oeddent am fynd ar ôl arian Amcan 1 ac Amcan 3. Roedd sgiliau a gwaith y TEC – a chyfraniad parhaus busnesau lleol – yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant CETW yn y dyfodol. Diolchodd i'r cynrychiolwyr am fynegi eu pryderon a dywedodd y dylent barhau i wneud hyn fel corff ac yn unigol, a gyda Chadeirydd Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 4: Coed Cymru**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd David Jenkins, sef Cyd-drefnydd Coed Cymru, i'r cyfarfod ac estynnodd wahoddiad iddo wneud ei gyflwyniad.

4.2 Dywedodd Mr Jenkins wrth y Pwyllgor fod Coed Cymru yn bartneriaeth o gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a lansiwyd ym 1985 a'i fod wedi'i gofrestru fel elusen. Ei hamcan oedd hyrwyddo'r broses o reoli coetiroedd brodorol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, sylweddoli eu potensial a sicrhau bod pobl yn manteisio'n llawn ar brosiectau'n ymwneud â choetiroedd.

4.3 Yn ystod y 40 mlynedd cyn 1985, roedd ardaloedd sylweddol o goetir hynafol a lled-naturiol wedi diflannu er mwyn eu troi'n dir amaethyddol neu eu trosi i blanhigfeydd conifferaidd. Roedd y gweddill mewn perygl oherwydd anifeiliaid yn gor-bori neu ddiffyg sylw

ac roeddent fel arfer ar y safleoedd mwyaf anghysbell ar ffermydd. Roeddent yn cynnwys fflora a ffawna arbennig sy'n flaenoriaeth uchel dan Raglen Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Yn ogystal â hyn, roedd coetiroedd Cymru yn gartref i'r Barcut Coch a'r ffwlbart – ei unig gynefin yn y DU. Cyflawnwyd y gwaith adnewyddu a chynnal a chadw ar y coetiroedd sy'n hanfodol i gefn gwlad Cymru gan dîm o 17 swyddog coetir yn bennaf. Roedd y rhain wedi'u hariannu ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Datblygodd y tîm sgiliau arbenigol mewn defnyddio adfywio naturiol dan gysgod parhaus yn lle'r traddodiad o dorri coed a'u hail blannu. Derbyniwyd y dull gweithredu radical hwn yn gyffredinol a chynorthwyodd i adfer coetiroedd ar ôl defnyddio llawer o bren yn ystod dwy ryfel byd y ganrif ddiwethaf.

4.4 Ers penodi'r swyddogion coetir ym 1986, cytunwyd ar gynlluniau rheoli ar gyfer oddeutu 15,000 o'r 70,000 hectar o goetiroedd yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae 266 o fusnesau – gan gynnwys dros 50 o felinau llifo – naill ai wedi mynd i gyfeiriad newydd neu eu sefydlu.

4.5 Er mwyn manteisio'n llawn ar ansawdd y pren sydd ar gael ar hyn po bryd, bu'n rhaid i Coed Cymru ddatblygu ei ddulliau ei hun o lifo a sychu pren o ddiamedr bach i gynhyrchu stociau dimensiwn safonol yn debyg i'r rhai hynny sy'n cael eu mewnforio. Trwy gydweithio'n lleol â busnesau, colegau, cynhyrchwyr peiriannau a gludyddion, llwyddwyd i ddatblygu amrywiaeth o nwyddau o loriau i ddodrefn. Gwerthwyd a phrynwyd llawer o'r cynnyrch mewn marchnadoedd lleol.

4.6 Awgrymodd Mr Jenkins y gellir dysgu nifer o wersi o brofiadau Coed Cymru – roedd parhad yn hanfodol i bartneriaethau, roedd arfer amgylcheddol gorau yn ategu arfer masnachol gorau, roedd yn rhaid wrth ddyfeisgarwch wedi'i gefnogi gan waith ymchwil ac arbrofi, bod y model o grp ymchwil a pholisi bach yn cyd-drefnu staff awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol yn effeithiol, a bod digon o bobl ddeallus a hyblyg yng Nghymru i lunio economi wledig newydd gyda chymorth strwythur cefnogol effeithiol. Yn olaf, gyda chymorth Welsh Farm Supplies – grp gyda dros 100 o safleoedd manwerthu – roedd Coed Cymru yn bwriadu datblygu strwythur marchnata er mwyn hyrwyddo delwedd cynhyrchion pren sy'n unigryw i Gymru.

7. Roedd y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yn cynnwys:

- faint o werth ychwanegol oedd yn digwydd ger ffynhonnell y pren;
- sut oedd Coed Cymru yn marchnata ei wasanaethau;
- a oedd digon yn cael ei wneud i addysgu pobl ifanc yngln â'r cyfleoedd gwaith allai fod ar gael; ac
- os oedd rhywbeth y gallai'r Pwyllgor Rhanbarthol ei wneud i helpu, beth fyddai hyn.

4.8 Soniodd Mr Jenkins fod peiriannau a deunyddiau melinau llifo yn symudol, felly roedd cyfle i ffermydd unigol broses eu pren eu hunain. Yn yr un modd, roedd odynau'n fach ac nid

oeddent yn cynnwys llawer o dechnoleg, felly roedd hyn yn cynnal datblygiad lleol. Roedd hyn yn galluogi ffermwyr i ddatblygu'n gynhyrchwyr yn gyflym. Roedd y fenter yn derbyn cyhoeddusrwydd trwy gyfrwng llafar gwlad ac mewn sioeau amaethyddol gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a thrwy Eisteddfodau. Roedd pob prif goleg yn defnyddio pren lleol ar gyrsiau cynllunio dodrefn, gan gynnwys Ysgol Bensaernïaeth Cymru lle roedd y myfyrwyr yn defnyddio deunyddiau o Gymru. Byddai cymorth ariannol i gychwyn busnesau bach – yn hytrach na chynorthwyo twf – a defnyddio pren o Gymru yn cynorthwyo Coed Cymru i barhau ei waith. Byddai'r diwydiant yn elwa hefyd o lacio'r prosesau rheoleiddio cynllunio a rheolau trethi busnes ar gyfer sefydlu melinau llifo lleol a safleoedd gweithgynhyrchu cysylltiedig.

4.9 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jenkins am gyflwyniad addysgiadol.

**Eitem 5: Cyflwyniadau Cyhoeddus**

1. Gwnaethpwyd y cyflwyniadau canlynol:

| **Pwnc** | **Sefydliad/Siaradwr** |
|---|---|
| Kite Country Project | Michael Bunney, Rheolwr, Festival of the Countryside |
| Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog : gwella bywyd ar Fannau Brycheiniog | Duncan Fisher, un o'r aelodau a sefydlodd yr Ymddiriedolaeth |
| Gwaith Grp Menter Abercraf a'r Ardal | Marian Lowther, Cyd-drefnydd |
| Swyddogaeth y Welfare | Wynne Roberts, Rheolwr, the Welfare, Ystradgynlais |

Mae copïau o'r cyflwyniadau yngln â Red Kite Country a Grp Menter Abercraf a'r Ardal ynghlwm fel Atodiad 1 a 2.

**Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin**

**Cofnodion: MID 04-00(cof)**

1. Gofynnodd Kirsty Williams a dderbyniwyd y papur briffio yngln â'r '3 Haen' a

gafodd ei addo yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cael ei baratoi a'i drosglwyddo i'r Cadeirydd blaenorol, Glyn Davies. Dywedodd y Cadeirydd presennol y byddai'n ymgynghori â Mr Davies er mwyn datblygu'r mater.

6.2 Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr a staff y Welfare Hall am eu croeso. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Hydref yn Neuadd yr Ysgol, Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion.